| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Chwefror 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Teitl:** | **Ymateb i wahoddiad Llywodraeth Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Chonwy** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cytuno ar ymateb i ohebiaeth (a dderbyniwyd ar 14 Rhagfyr 2017, gweler Atodiad 1) gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, yn gwahodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi gwneud ceisiadau tebyg i'r canlynol:

- Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro
- Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen
- Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Rhondda Cynon Taf

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn am ymateb 'cadarnhaol' gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy erbyn 28 Chwefror 2018 ac wedi egluro y bydd yn ystyried defnyddio ei phwerau ymyrryd dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i gyfarwyddo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi CDLlau ar y cyd os ydynt yn anwybyddu'r cyfle hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod Sir Ddinbych yn stopio'r holl waith ar y CDLl newydd hyd nes rhoddir ystyriaeth briodol i lunio CDLl ar y cyd.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

a) Bod y Cabinet yn ystyried cyflwyno ymateb ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i Lywodraeth Cymru yn nodi'r dewis ddull, sef bwrw ymlaen â chynhyrchu CDLl unigol ar gyfer Sir Ddinbych ond i gydweithio mwy â Chonwy a datblygu strategaethau sy'n ategu ei gilydd. Bod y Cabinet yn awdurdodi'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, i gytuno ar yr ymateb ar y cyd terfynol.

b) Bod y Cabinet yn cydnabod y risg o ran pwerau ymyrryd Ysgrifennydd Y Cabinet i gyfarwyddo Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i baratoi CDLl ar y cyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych fis Mehefin 2013 dan ofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r CDLl yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor

ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y sir yn ogystal â'i bolisïau i'w gweithredu yn ystod y cynllun pymtheg mlynedd o 2006 i 2021. Mae'r CDLl yn cael ei fonitro'n flynyddol ac mae tri Adroddiad Monitro Blynyddol wedi ei gynhyrchu hyd yma. Mae pob Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu'r graddau y mae strategaeth, polisïau a safleoedd datblygu yn cael eu darparu.

4.2 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi dau Awdurdod Cynllunio Lleol, neu fwy, i baratoi CDLl ar y cyd os ydynt yn dymuno . Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynhyrchu CDLlau ar y cyd. Mae rhoi ystyriaeth i gynlluniau ar y cyd hefyd wedi ei nodi yn 'Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 2, Awst 2015)' a Phapur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad (Ionawr 2017)'.

4.3 Mae cael CDLl cyfredol yn rhan hollbwysig o'r system sy'n dilyn y cynllun. Yn unol ag Adran 69 Deddf 2004, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol adolygu eu CDLlau o leiaf pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu; neu cyn hynny os yw Adroddiad Monitro Blynyddol yn gofyn am adolygiad. Cam cyntaf yr adolygiad yw paratoi ac ymgynghori ynghylch Adroddiad Adolygu CDLl. Roedd Adroddiad Adolygu CDLl Sir Ddinbych yn nodi bod angen CDLl newydd. Yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod, mae'n rhaid i'r Adroddiad Adolygu ystyried paratoi cynlluniau ar y cyd. Ni ystyriwyd y byddai CDLl ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddewis da, o ystyried effaith bosibl yr amseriad a gwaethygu'r sefyllfa o ran y cyflenwad 5 mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai. Roedd blaenoriaethau a chyfeiriadau strategol gwahanol hefyd yn rhwystrau i baratoi CDLl ar y cyd. Ystyriwyd y bydd cynhyrchu cynlluniau ar wahân yn dal yn arbed arian, drwy gydweithio ar y sail dystiolaeth a defnyddio llai ar ymgynghorwyr. Paratowyd Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer cynllun newydd Sir Ddinbych, a oedd yn nodi y byddai CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu erbyn 2021; gan sicrhau nad yw Sir Ddinbych yn cael ei adael heb gynllun datblygu ac felly'n gorfod dibynnu ar bolisïau cenedlaethol yn unig. Roedd yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni drafft yn destun ymgynghoriad 9 wythnos a ddaeth i ben ar 20 Hydref 2017, ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor ar 5 Rhagfyr 2017 a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2017.

4.4 Mae gan Sir Ddinbych hanes blaenorol gwych am gynhyrchu CDLl ac mae wedi arddangos ymrwymiad parhaus i'r broses drwy gwblhau Adroddiadau Monitro Blynyddol mewn pryd a chyflwyno'r Adroddiad Adolygu, ynghyd â Phapurau Cefndir cysylltiedig, o fewn y terfynau amser. Mae cyflwyno Cytundeb Cyflawni'r Cyngor ar gyfer y CDLl newydd hefyd yn dangos yr ymrwymiad hwn.

4.5 Er gwaethaf y sylwadau yn yr Adroddiad Adolygu yn dweud y byddai rhwystrau sylweddol wrth baratoi cynllun ar y cyd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gofyn am ymateb cadarnhaol i gynhyrchu CDLl ar y cyd erbyn 28 Chwefror 2018. Mae'r llythyr yn dweud na fyddai cynhyrchu CDLl ar y cyd yn effeithio ar yr amser paratoi ac y byddai'n arwain at arbedion, cynnydd yng ngallu staff ac yn sicrhau cysylltiadau â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol.

4.6 Er gwybodaeth i Aelodau, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at bob awdurdod yn y gogledd yn eu gwahodd i gyflwyno cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru. Nid oes terfyn amser i ymateb i'r cais hwn. Bydd Bwrdd

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Grŵp Prif Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru yn trafod y gwahoddiad mewn mwy o fanylder yn ystod y misoedd nesaf a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r broses wleidyddol yn y dyfodol.

4.7 Mae gwir bryder bod yr oedi sydd eisoes wedi ei achosi i'r amserlen ar gyfer cynhyrchu CDLl newydd, yn sgil ymyrraeth Llywodraeth Cymru, yn un sylweddol. Ceir risg amlwg y byddai CDLl ar y cyd yn cymryd mwy o amser i'w gynhyrchu na chynlluniau unigol, yn enwedig oherwydd y byddai angen sefydlu strwythurau cydlywodraethu newydd; cymryd cam yn ôl i gynhyrchu, ymgynghori ynghylch a chymeradwyo Cytundeb Cyflawni newydd ar y cyd; ystyried materion sail dystiolaeth ar y cyd; datblygu strategaeth newydd ar gyfer yr ardal newydd; a derbyn cytundeb dau gyngor ar gamau allweddol o'r CDLl, a bydd pob un o'r materion hyn yn arwain at oedi sylweddol, gan oedi'r broses fabwysiadu ddwy flynedd a mwy.

4.8 Mae CDLl presennol Sir Ddinbych (ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol) yn dod i ben fis Mehefin 2021 a ni cheir darpariaeth gyfreithiol i estyn hyd y CDLl. Byddai cynhyrchu CDLl ar y cyd yn rhoi'r Cyngor mewn perygl yn sgil methu mabwysiadu CDLl newydd erbyn 2021. Byddai hyn yn golygu y byddai Sir Ddinbych yn ddibynnol ar bolisïau cenedlaethol ac yn ddiamddiffyn i ddatblygiadau hapfasnachol am beth amser.

4.9 Bydd cynhyrchu CDLl ar y cyd yn gofyn am gytundeb a chyfaddawd i sicrhau y diwallir anghenion y ddau awdurdod yn y CDLl, a all arwain at wanhau cynigion y strategaeth dwf, materion lleol a pholisïau. Byddai dull ar y cyd yn golygu ymdrin ag ardal ddaearyddol fwy, gan bellhau swyddogion a'r gwaith ar baratoi'r CDLl oddi wrth gymunedau lleol.

4.10 **Gellir mynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a amlinellir gan Ysgrifennydd y Cabinet, gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd ar hyd coridor yr A55 i ddarparu twf, sicrhau portffolio o safleoedd datblygu, mynd i'r afael â gwydnwch trefi marchnad a'r gefnwlad wledig, a darparu canlyniadau gwell a chyson, drwy gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru, gan ddarparu dull strategol a chlir ar gyfer y rhanbarth.** Mae bob un o chwe awdurdodau lleol y gogledd wedi ymrwymo i gynllunio defnydd tir strategol yn y rhanbarth, fel y nodir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn nogfen 'Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru'. Bydd gwaith ar CDLl newydd Sir Ddinbych yn darparu sylfaen gadarn i gyfrannu at ddatblygiad Cynllun Datblygu Strategol.

4.11 Yn dilyn cyfarfodydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru, cynigir y dylid anfon ymateb ar y cyd i Ysgrifennydd y Cabinet yn argymell y dylai Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynhyrchu CDLlau ar wahân ond y dylent gydweithio mwy ar y sail dystiolaeth a datblygu strategaethau sy'n ategu ei gilydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddau awdurdod yn gweithio tuag at strategaeth gyfannol ar y cyd unwaith y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol yn eu lle. Byddai hyn yn gam cadarnhaol ymlaen ac yn sicrhau nad yw amseriad y CDLlau newydd yn cael ei effeithio. Byddai'r dull hwn hefyd yn caniatáu i'r ddau awdurdod gadw cyd-destun lleol a pholisïau presennol sy'n gweithio'n dda, ac yn sicrhau bod eu blaenoriaethau a'u strategaethau yn cael eu hystyried yn briodol. Dan y dewis hwn, mae'r perygl o oedi pellach a gwaethygu'r sefyllfa o ran y cyflenwad 5 mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn llai.

4.12 Byddai’r dull hwn hefyd yn defnyddio trefniadau llywodraethu presennol a threfniadau sydd newydd eu cymeradwyo, heb orfod sefydlu strwythur cydlywodraethu newydd sy’n mynd i gymryd amser. Yn ogystal, bydd y dewis hwn yn arwain at arbedion yn sgil cydweithio ar y sail dystiolaeth. Mae llawer iawn wedi ei ddysgu yn sgil y cylch cyntaf o baratoi CDLlau ac mae’r ddau dîm CDLl yn fwy ymwybodol o’r risgiau i sicrhau bod amserlenni yn fyrrach a bod CDLlau yn cael eu mabwysiadu’n gynt nag o’r blaen.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion
- Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau cludiant da
- Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae’r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd costau adolygu a chynhyrchu CDLl newydd yn cael ei asesu'n fanwl dros y misoedd nesaf. Mae'r gyllideb ar gyfer yr adolygiad wedi ei chronni'n flynyddol ac ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes Asesiad o’r Effaith ar Les wedi ei gynnal gan nad yw'r adroddiad yn gofyn am benderfyniad ynghylch polisi, strategaeth na rhaglen. Bydd y gwaith ar y CDLl Newydd yn destun asesiad parhaus o’r effaith ar les.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ar 2 Chwefror 2018.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd costau bwrw ymlaen â CDLl Sir Ddinbych, a chydweithio gyda Chonwy ar dystiolaeth ac ymchwil a datblygu strategaethau sy’n ategu ei gilydd, yn cael eu hasesu'n fanylach yn ystod y misoedd nesaf. Mae cronfa benodol wedi ei sefydlu at y diben hwn, ac mae'r gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gwneud cyfraniad blynyddol o £20,000 tuag ati. Mae’r gronfa hon wedi ei sefydlu’n benodol i gwrdd â chostau sy’n gysylltiedig ag unrhyw CDLl newydd.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ceir risg glir o ran gallu Ysgrifennydd y Cabinet i ddefnyddio pwerau ymyrryd dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gyfarwyddo Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i baratoi CDLl ar y cyd. Mae’r brif risg yn ymwneud ag amser a’r oedi wrth ddatblygu a mabwysiadu CDLl newydd. Mae’r CDLl presennol yn dod i ben fis Mehefin 2021 a cheir risg sylweddol o ran na fydd CDLl ar y cyd yn barod erbyn mis Mehefin 2021. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg fframwaith polisi cynllunio lleol i benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan orfod dibynnu ar bolisïau cynllunio cenedlaethol. Nid oes gan Sir Ddinbych gyflenwad 5 mlynedd 'technegol' o dir ar gyfer tai, fel y nodir yn Nodyn

Cyngor Technegol 1. Bydd oedi wrth gynhyrchu CDLl newydd yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.